# MORRIS, DAVID (1630 - 1703), offeiriad Catholig a cham-dyst

**Enw:** David Morris
**Dyddiad geni:** 1630
**Dyddiad marw:** 1703
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** offeiriad Catholig a cham-dyst
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** John Martin Cleary

Mab Walter Morris o Lantilio, sir Fynwy, ac Elizabeth Woodward o sir Gaerwrangon. Yr oedd ganddo frawd a fu farw yng ngholeg S. Omer, ac yr oedd un o'i chwiorydd yn lleian yn Ghent. Bu'n byw yng ngwesty'r myfyrwyr Cymreig yn Ghent am dair blynedd, ac ymaelododd yn y Coleg Seisnig yn Rhufain, 16 Hydref 1648, yr un diwrnod â'r Tad William Morgan, S.J.. Urddwyd ef yn offeiriad yn S. John Lateran, 4 Ebrill 1654, ac aeth i Loegr, 1 Mai 1655. Ychydig a wyddys am ei yrfa yn ystod yr ugain mlynedd nesaf. Yr oedd yn aelod o Gabidwl yr offeiriaid seciwlar yn 1677, ac, er gwaethaf ei ymdrechion yn eu herbyn, parhâi yn aelod yn 1684, pan ddisgrifid ef fel archddiacon siroedd Northampton, Huntingdon a Chaergrawnt. Yn 1680, ar adeg y Cynllwyn Pabaidd, daethpwyd â Morris o Fflandrys, drwy gyfrwng Israel Tonge, cyd hysbyswr Titus Oates, i gadarnhau'r cyhuddiadau a dducpwyd yn erbyn y Jeswitiaid gan offeiriad Catholig arall, y Dr. John Sergeant. Daethpwyd i'w adnabod fel *fidus Achates* Sergeant. Dug y ddau gam dystiolaeth yn erbyn y Jeswitiaid o flaen y Cyngor Cyfrin, 18 Chwefror1680, a gorchmynnodd T 'r Cyffredin gyhoeddi eu tystiolaeth, 26 Mawrth 1681. Rhwng 1680 a 1685 derbyniodd Morris swm o £900 o gronfa'r gwasanaeth cyfrin am ei wasanaeth. Dywaid Hay ' Byddai'n ddiddorol darganfod beth oedd Morris yn ei wneud yn Lloegr o 1680 hyd 1685, neu beth a gyflawnasai cyn hynny i ennill y pensiwn hwn o dros £200 y flwyddyn '. Daw i'r casgliad fod â wnelai Sergeant a Morris â chynllwynion Titus Oates a Shaftesbury o'r cychwyn. Yn wir, derbyniodd Sergeant a Morris fwy o arian nag Oates a Tonge, a gyfrifid fel dyfeiswyr y cynllwyn Pabaidd.

## Awdur

**John Martin Cleary**

## Ffynonellau


Foley, *Records of the English province of the Society of Jesus (1570-1800)*, v, 465n

M. V. Hay, *The Jesuits and the Popish Plot* (Llundain 1934), 164-5, 173

*Catholic Record Society*, xl, 42 xlvii, 125 a n


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732873


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu